# Adroddiad ar

# Ysgol Lewis Pengam

Gilfach
Bargoed
CF81 8LJ

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Lewis Pengam

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Lewis Pengam |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 638 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 584 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 54 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Uwchradd yw 21.1%) | 24.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Uwchradd yw 11.2%) | 18.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | * |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/02/2013 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/01/2018 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 17/02/2025 |

Daw'r data hwn o'r Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl diweddaraf sydd ar gael. Efallai y bydd y ffigurau hyn ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Lewis Pengam yn gymuned ofalgar a chynhwysol. Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion yn groesawgar a chyfeillgar. Maent yn teimlo’n ddiogel a’u bod yn cael eu cefnogi ac mae llawer ohonynt yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu.

Mae’r pennaeth, a’i uwch dîm arweinyddiaeth, yn arwain yr ysgol yn dda trwy gyfnod o newid, wrth iddynt baratoi ar gyfer pennod newydd ym mis Medi 2025. Mae’r ysgol wedi parhau i roi lles disgyblion a staff wrth wraidd ei gwaith. Mae’n galluogi pob disgybl i gyfranogi a llwyddo, beth bynnag fo’u cefndir a’u cyd-destun cymdeithasol a datblygu ystod o strategaethau gwerthfawr i gefnogi disgyblion a theuluoedd y mae tlodi yn effeithio arnynt. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb a chyflawniad y disgyblion hyn. Ar y cyfan, mae’r gwaith i wella presenoldeb ar draws yr ysgol yn gryfder nodedig.

Mae athrawon a staff cymorth yn meithrin perthynas waith gadarnhaol â disgyblion ac, mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn ymgysylltu â’u dysgu ac yn gwneud cynnydd cadarn. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw disgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent oherwydd diffygion yn yr addysgu. Mae ymddygiad gwael ychydig o ddisgyblion hefyd yn llesteirio gwersi ac, yn yr achosion hyn, nid yw polisi ymddygiad yr ysgol yn cefnogi staff na disgyblion yn ddigon da. Mae dull sydd wedi’i gydlynu’n dda ar gyfer gwella medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau Cymraeg llafar yn ddigon da.

Mae cyfrifoldebau arweinyddiaeth wedi’u rhannu’n rhesymol ar draws yr ysgol ac mae hyn wedi galluogi arweinwyr i flaenoriaethu eu gwaith yn effeithiol. Ochr yn ochr ag arweinwyr canol, maent yn ymgymryd ag ystod o weithgareddau i werthuso gwaith yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw’r prosesau hyn yn canolbwyntio’n ddigon craff bob tro ar effaith darpariaeth ar gynnydd disgyblion. Er bod y corff llywodraethol yn gefnogol iawn i’r ysgol, nid yw strwythurau’r is-bwyllgorau yn ddigon clir nac effeithiol.

Mae’r ysgol yn darparu ystod o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol, sy’n cyfoethogi eu haddysg. Mae’r rhain yn cynnwys digwyddiadau poblogaidd y bandiau roc a gweithgareddau chwaraeon. Mae’r ysgol yn teilwra ei gofal, cymorth ac arweiniad yn effeithiol ac yn darparu ystod eang o gyrsiau a llwybrau sy’n bodloni anghenion bron pob un o’r disgyblion.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:

A1. Gwella addysgu a darparu cymorth strategol i athrawon ar reoli ymddygiad

A2. Mireinio gweithgareddau hunanwerthuso fel eu bod yn canolbwyntio'n fanwl ar ddysgu a medrau disgyblion

A3. Gwella darpariaeth i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion

A4. Cryfhau strwythurau ac effeithiolrwydd llywodraethu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Addysgu a dysgu

Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn Ysgol Lewis Pengam yn meithrin perthynas waith gref â’i disgyblion ac yn eu hadnabod yn dda. Mae llawer yn creu amgylchedd cadarnhaol yn eu hystafelloedd dosbarth, yn dangos rheolaeth gadarn ac yn sefydlu arferion a ddeallir yn dda, gan atgoffa disgyblion o ddisgwyliadau yn rheolaidd.

Mae llawer o athrawon yn cynllunio dilyniannau o weithgareddau sy’n cynyddu gwybodaeth a medrau disgyblion yn dda. Mae’r athrawon hyn yn rhoi esboniadau ac enghreifftiau clir ac mae gwersi’n mynd rhagddynt â rhediad addas. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud o leiaf y cynnydd disgwyliedig yn eu dysgu. Yn y dosbarthiadau hyn, mae disgyblion yn dilyn cyfarwyddiadau eu hathrawon yn llawn ac yn canolbwyntio trwy gydol y wers. Maent yn ddysgwyr awyddus sy’n cymryd rhan mewn gweithgareddau yn frwdfrydig ac yn ymddwyn yn dda mewn gwersi. Mae llawer o athrawon yn holi’n briodol i wirio gallu disgyblion i alw i gof a’u dealltwriaeth, ac maent yn cynnig arweiniad unigol gwerthfawr yn rheolaidd. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif ohonynt sy’n defnyddio holi’n fedrus i brocio neu ddwysáu dealltwriaeth disgyblion.

Mewn ychydig iawn o wersi, mae athrawon yn ysbrydoli disgyblion â’u brwdfrydedd a’u hangerdd am eu pwnc. Mae gan yr athrawon hyn ddealltwriaeth glir o sut i gynllunio ar gyfer dysgu yn effeithiol. Maent yn arfogi disgyblion â’r medrau i ymateb yn dda i’r lefelau uchel o her y maent yn eu cynnig. Maent yn monitro dysgu yn llwyddiannus ac mae ganddynt yr hyder i oedi’r wers yn ôl yr angen i fynd i’r afael â chamsyniadau. O ganlyniad, mae disgyblion yn y gwersi hyn yn gwneud cynnydd cryf.

Er gwaethaf y cryfderau hyn, dim ond cynnydd cyfyngedig a wna lleiafrif o ddisgyblion o ran datblygu eu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau, naill ai oherwydd diffygion yn yr addysgu neu oherwydd nad ydynt yn ymgysylltu’n ddigon da â’u dysgu mewn gwersi. Mewn lleiafrif o achosion:

- nid oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel o ran cynnydd disgyblion
- nid yw athrawon yn sefydlu cydbwysedd priodol rhwng cefnogi gwaith disgyblion a datblygu eu hannibyniaeth
- nid yw athrawon yn manteisio’n ddigon da ar amser mewn gwersi, sy’n arwain at wersi sydd naill ai’n dechrau’n araf, yn gorffen yn gynnar neu wersi heb strwythur clir

Mae lleiafrif o ddisgyblion yn dangos ymddygiad goddefol ac nid ydynt yn ymgysylltu’n llawn. Mae gan ychydig o ddisgyblion agweddau negyddol at ddysgu, gan siarad ar draws yr athro o bryd i’w gilydd a methu gwrando’n barchus. Nid yw polisi ymddygiad yr ysgol yn cefnogi staff na disgyblion yn ddigon da yn yr achosion hyn.

Mae llawer o athrawon yn rhoi adborth llafar gwerthfawr mewn gwersi i gynorthwyo disgyblion i wella. Maent yn cerdded o gwmpas y dosbarth i asesu cynnydd disgyblion, gan gynnig arweiniad unigol gwerthfawr yn gyson. Mae effaith adborth ysgrifenedig yn rhy amrywiol. Yn yr achosion gorau, mae disgyblion yn defnyddio cyngor eu hathrawon i wella eu gwaith yn dda. Fodd bynnag, yn rhy aml, nid yw adborth yn ddigon defnyddiol i alluogi disgyblion i wneud gwelliannau pwrpasol i’w gwaith.

## Llythrennedd a medrau ehangach

Mae’r ysgol wedi mabwysiadu dulliau priodol i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion. Mae arweinwyr yn cydweithio’n addas i nodi cyfleoedd priodol i ymwreiddio medrau llythrennedd mewn meysydd pwnc. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i gymhwyso a datblygu eu huwch fedrau darllen ar draws y cwricwlwm.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando’n astud ac yn ymateb yn briodol i’w cyfoedion. Maent yn aml yn rhoi atebion synhwyrol i gwestiynau a, phan gânt eu hannog, mae’r mwyafrif ohonynt yn cynnig esboniadau estynedig sy’n adlewyrchu eu dealltwriaeth. Yn aml, mae disgyblion yn defnyddio terminoleg sy’n benodol i’r pwnc yn gywir yn eu hymatebion, gan gyfrannu’n gadarnhaol at drafodaethau dosbarth. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn cyflwyno atebion annatblygedig, yn aml oherwydd technegau holi cyfyngedig sy’n cyfyngu ar eu cyfleoedd i ehangu ar eu syniadau. Ar ben hynny, mae ychydig o ddisgyblion yn cael trafferth gwrando’n astud, sy’n llesteirio eu hymgysylltiad a’u dealltwriaeth.

Mae datblygu medrau darllen disgyblion yn faes ffocws pwysig yn yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos gallu cadarn i nodi ystyron sylfaenol sydd ymhlyg mewn testunau ac yn dod o hyd i wybodaeth berthnasol yn gymwys. Pan gânt gyfleoedd i wneud hynny, mae llawer o ddisgyblion yn dangos medrau darllen priodol. Er enghraifft, mewn gwersi Saesneg, maent yn defnyddio dyfyniadau yn effeithiol i ategu eu dadleuon ac mae’r mwyafrif ohonynt yn datblygu eu medrau empathi yn dda wrth drafod cymeriadau ffuglennol, fel August yn y nofel ‘Wonder’. Mewn hanes, mae llawer o ddisgyblion yn gwerthuso dibynadwyedd ffynonellau yn llwyddiannus ac yn dangos dealltwriaeth gref o ogwydd, er enghraifft wrth drafod Boicot Bysiau Montgomery. Mewn gwersi Ffrangeg, mae disgyblion yn defnyddio strategaethau defnyddiol yn gyson i ddarllen ac ynganu geiriau anghyfarwydd. Nid yw disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 yn datblygu eu hwch fedrau darllen yn ddigon da oherwydd diffyg cyfleoedd ar draws y cwricwlwm.

Mae’r ysgol wedi cydnabod pwysigrwydd gwella medrau ysgrifennu disgyblion a’i wneud yn flaenoriaeth ysgol gyfan. Mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu’n estynedig yn briodol, fel wrth drafod geowleidyddiaeth Ewropeaidd mewn daearyddiaeth. Mae’r disgyblion hyn yn ysgrifennu â chywirdeb, strwythur a geirfa addas. Mae disgyblion mwy abl yn llunio gwaith manwl a threfnus, gan ddefnyddio terminoleg sy’n benodol i’r pwnc. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud gwallau sillafu, atalnodi a gramadegol yn gyson. Maent yn llunio darnau byr, annatblygedig â geirfa gyfyngedig ac mae ychydig ohonynt yn cael trafferth cymhwyso confensiynau ysgrifennu yn gywir, fel rhoi cyfeiriadau ar lythyrau. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn dangos gorddibyniaeth ar atebion enghreifftiol neu dasgau sydd wedi’u sgaffaldio’n drwm, sy’n cyfyngu ar eu gallu i ddatblygu medrau ysgrifennu annibynnol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau creadigol gwerthfawr wrth gyfansoddi a pherfformio yn eu bandiau roc a phop. Maent yn ymarfer yn rheolaidd a, gydag adborth defnyddiol gan staff, gallant arbrofi ag arddulliau a threfniannau. Mae eu hymrwymiad yn amlwg trwy eu cyfranogiad yng nghystadleuaeth flynyddol ‘Brwydr y Bandiau’.

## Y Gymraeg

Mae mwyafrif y disgyblion yn cyfathrebu’n addas trwy gyfrwng y Gymraeg mewn trafodaethau dosbarth, gan ynganu’n gywir yn gyffredinol. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio strategaethau adalw priodol yn effeithiol i ddod o hyd i ffeithiau o glipiau fideo a cherddi Cymraeg, fel ‘Hoffi’r Ysgol? Ydw...ond...’ gan Dorothy Jones. Mae disgyblion mwy abl yn cymryd rhan mewn sgyrsiau byr yn Gymraeg a gallant sgwrsio’n annibynnol. Fodd bynnag, yn aml, mae disgyblion yn dibynnu’n ormodol ar sgaffaldiau a strwythurau ac nid oes ganddynt yr hyder i siarad neu ysgrifennu yn Gymraeg yn annibynnol.

Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu gwerthfawrogiad o’u treftadaeth a’u diwylliant Cymraeg, er enghraifft trwy ddysgu am drychineb glofa Senghennydd ac wrth astudio ‘cerdd dant’ a cherddoriaeth werin draddodiadol Gymreig. Fodd bynnag, dim ond hanner y disgyblion sy’n cael eu cofrestru ar gyfer cymhwyster TGAU Cymraeg. Ar ben hynny, nid yw cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg llafar y tu allan i wersi wedi’u datblygu’n ddigonol.

## Medrau rhifedd a digidol

Ar draws y cwricwlwm, mae ystod addas o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd, er nad yw'r rhain yn herio disgyblion yn ddigonol bob tro. Mae gan fwyafrif y disgyblion afael sicr ar rif. Maent yn cymhwyso'r pedair rheol rhif yn rhwydd, er enghraifft wrth ddefnyddio modelau bar i ddatrys amrywiaeth o broblemau yn ymwneud â chymarebau neu wrth ddefnyddio canrannau i gyfrifo effeithlonrwydd mewn gwyddoniaeth. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn datblygu dealltwriaeth gref o rif. Maent yn gweithio'n rhwydd â rhifau mewn ffurf safonol ac yn datrys problemau yn ymwneud â thebygolrwydd yn gymwys.

Mae gan fwyafrif y disgyblion fedrau trin data priodol. Maent yn cyfrifo cyfartaleddau, yn plotio graffiau'n gywir ac yn defnyddio'r rhain i ddod i gasgliadau addas. Er enghraifft, mewn daearyddiaeth, maent yn dadansoddi graff sy'n dangos glawiad yn erbyn lefel yr afon. Mae medrau rhif y lleiafrif o ddisgyblion yn wan. Maent yn cael trafferth cyfrifo gan ddefnyddio'r pedair rheol ac wrth ddefnyddio canrannau. Er enghraifft, maent yn cael trafferth cyfrifo arwynebedd cylchoedd a defnyddio graddfeydd syml mewn graffiau.

Yn gyffredinol, gwna disgyblion gynnydd addas wrth ddatblygu eu medrau digidol. Ar y cyfan, mae cyfleoedd i ddatblygu'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm yn briodol, ond mewn rhai meysydd, mae darpariaeth gref ar gyfer yr agwedd hon. Yn eu gwersi dinasyddiaeth, mae disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o ddefnyddio hyperddolenni ac, mewn ffotograffiaeth, maent yn defnyddio meddalwedd i drin delweddau. Mewn mathemateg, maent yn defnyddio taenlenni i ddatblygu eu gallu i ddefnyddio ffwythiannau a fformiwlâu a chysyniadau mathemategol fel mynegeion negatif a mesuriadau cyfartaledd.

## Cwricwlwm

Mae gan yr ysgol weledigaeth glir ar gyfer ei chwricwlwm, sydd wedi'i seilio ar baratoi pob disgybl yn y modd gorau posibl ar gyfer byd gwaith a bywyd ar ôl ysgol. Mae arweinwyr yn cyfarfod yn rheolaidd â'u hysgolion cynradd partner i sicrhau bod disgwyliadau cytûn ynghylch cynnydd a bod y cwricwlwm yn adeiladu'n addas ar brofiadau disgyblion. Dros y saith mlynedd diwethaf, mae'r ysgol wedi treialu nifer o wahanol fodelau cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 3 ac wedi addasu ei dulliau yn briodol, yn unol â chanfyddiadau ei phrosesau hunanwerthuso. Fodd bynnag, mae diffyg cydlyniad mewn cynllunio ar gyfer Cwricwlwm i Gymru ar draws rhai meysydd.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae ystod eang o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol, sy'n cynnwys ffotograffiaeth, peirianneg ac amrywiaeth o gyrsiau cerddoriaeth. Mae llwybrau gwerthfawr i ddisgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt ac mae disgyblion mwy abl yn elwa ar gyfleoedd i astudio cyrsiau fel mathemateg ychwanegol a gwyddoniaeth driphlyg, sy'n cynnig llwybr defnyddiol i astudiaethau ôl-16 yn y meysydd hyn. Mae arweinwyr yn sicrhau bod disgyblion yn wybodus am gynnwys cyrsiau ac yn ystyried barn disgyblion yn ofalus er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm yn bodloni eu hanghenion a'u dyheadau. Trwy'r bartneriaeth â dwy ysgol uwchradd gyfagos, mae disgyblion y chweched dosbarth yn elwa ar ystod eang o gyrsiau, gan gynnwys astudiaeth ffilm, troseddeg a gwyddor feddygol.

Mae cyfleoedd addas i ddisgyblion ddysgu am hanes a phrofiadau cymunedau Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a phobl LHDTC+. Mae'r rhain yn cynnwys dysgu am waddol Betty Campbell, cenhedlaeth Windrush a chyfleoedd i ystyried chwedlau hiliol, rhagfarn a gwahaniaethu. Mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABaCh) gynhwysfawr, sy'n cael ei chyflwyno gan dîm bach o athrawon arbenigol a siaradwyr gwadd allanol, lle bo hynny'n briodol. Mae arweinwyr yn holi barn disgyblion am y ddarpariaeth hon yn rheolaidd ac yn addasu'r rhaglen yn ôl eu hadborth, ynghyd ag unrhyw themâu sy'n codi yn ystod y flwyddyn.

Mae gan yr ysgol ystod eang o weithgareddau allgyrsiol sy'n cyfoethogi'r cwricwlwm ffurfiol. Mae'r rhain yn cynnwys y clwb gwyddbwyll, y clwb gwleidyddiaeth, nifer o fandiau roc a theithiau lleol a rhyngwladol. Caiff disgyblion eu hannog i ddeall gwerth eu cyfranogiad yn y gweithgareddau hyn.

## Y chweched dosbarth

Ar y cyfan, mae gan ddisgyblion y chweched dosbarth agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac maent yn gydwybodol ac yn weithgar. Mae eu cyfraniadau at drafodaethau dosbarth yn werthfawr ac maent yn esbonio eu hymresymu'n dda, gan ddefnyddio terminoleg yn effeithiol. Gall disgyblion y chweched dosbarth alw dysgu blaenorol i gof yn sicr ac, yn y nifer fechan o wersi a arsylwyd, maent yn gwneud cynnydd cadarn.

## Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Lewis Pengam yn amgylchedd anogol lle caiff disgyblion eu trin yn deg a'u hannog i arddel eu hunigoliaeth. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrtais, yn foesgar ac yn barchus tuag at eu hathrawon, eu cyfoedion ac ymwelwyr â'r ysgol.

Mae gan yr ysgol ystod eang o ymyriadau buddiol i gefnogi cynnydd academaidd, lles a diogelwch disgyblion, gan gynnwys gwaith gyda llawer o asiantaethau allanol. Mae'r rhain yn cynnwys cwnsleriaid ysgol, gweithwyr ieuenctid a sefydliadau sy'n cefnogi anghenion disgyblion unigol. Mae mwyafrif y disgyblion sy'n manteisio ar yr ymyriadau hyn yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau, gwella eu presenoldeb neu reoleiddio eu hymddygiad yn well.

Mae'r ysgol yn cefnogi dealltwriaeth disgyblion o amrywiaeth a chynhwysiant a sut i herio stereoteipiau ac agweddau negyddol yn effeithiol. Caiff hyn ei hybu'n briodol trwy ei rhaglen ABaCh, gwasanaethau ac mewn pynciau perthnasol ar draws y cwricwlwm. Mae'r grŵp LHDTC+ yn arwain 'Pride Pengam', sef digwyddiad sy'n cael ei ddathlu gan y gymuned gyfan.

Mae gan yr ysgol drefniadau pontio effeithiol, gan gynnwys ar gyfer disgyblion sy'n trosglwyddo i'r gymuned o ysgolion uwchradd eraill. Mae staff yn rhoi cyngor ac arweiniad defnyddiol i ddisgyblion ar y camau nesaf yn eu dysgu. Mae trefniadau addas ar waith ar gyfer trosglwyddo i addysg ôl-16 ac addysg uwch, gan gynnwys cysylltiadau cryf â'r gwasanaeth gyrfaoedd, darparwyr prentisiaethau a cholegau. Mae'r rhain yn helpu disgyblion i fod â dealltwriaeth glir o'r opsiynau sydd ar gael iddynt ac i godi eu dyheadau.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth defnyddiol, ar y cyfan, i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae staff yn nodi anghenion disgyblion yn gynnar ac yn defnyddio ystod eang o ymyriadau buddiol i'w cefnogi. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd addas, o leiaf, o'u mannau cychwyn ac mae lleiafrif ohonynt yn gwneud cynnydd cryf. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos ag ysgolion cynradd partner i sicrhau bod disgyblion ag ADY yn trosglwyddo'n esmwyth a bod eu hanghenion dysgu a lles yn cael eu bodloni. Mae gan bob disgybl ag ADY broffil un-dudalen gwerthfawr, sydd ar gael yn rhwydd i staff, er nad yw'r rhain yn canolbwyntio'n ddigonol ar nodi strategaethau addysgu i helpu'r disgyblion hyn i ddysgu orau. Mae gan ddisgyblion sy'n cael darpariaeth ddysgu ychwanegol gynlluniau datblygu unigol cynhwysfawr. Yn gyffredinol, mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth a gânt am ddisgyblion ag ADY yn addas i wneud addasiadau priodol i'w haddysgu.

### Ciplun – Gwella presenoldeb disgyblion

Mae gwaith yr ysgol i wella presenoldeb disgyblion yn arbennig o lwyddiannus. Mae arweinwyr yn hybu pwysigrwydd presenoldeb da yn dda. Maent yn defnyddio gwobrau ar gyfer disgyblion sydd â phresenoldeb uchel yn strategol ac maent yn cyfarfod â disgyblion yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod eu barn yn llywio sut mae'r system wobrwyo ar gyfer presenoldeb yn gweithio. Mae arweinwyr yn dadansoddi cyfraddau presenoldeb grwpiau o ddisgyblion, grwpiau blwyddyn ac unigolion yn fanwl.

Mae cyfraddau presenoldeb, gan gynnwys y rhai ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, wedi gwella dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn fwy na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Er mwyn mynd i'r afael â phresenoldeb sy'n peri pryder, mae ymateb graddedig priodol. Mae meini prawf clir ar gyfer ymyriadau gwerthfawr sy'n cael eu cyfleu'n dda i ddisgyblion a rhieni. Mae arweinwyr a staff yn cydweithio'n agos â disgyblion a'u teuluoedd i nodi rhwystrau unigol rhag presenoldeb rheolaidd. Maent wedi nodi grwpiau penodol o ddisgyblion a chyfnodau yn ystod y flwyddyn pan mae presenoldeb ar ei isaf ac wedi cyflwyno strategaethau defnyddiol. Mae arweinwyr yn olrhain effeithiolrwydd ymyriadau presenoldeb yn ofalus i fesur effaith eu gwaith ac yn addasu'r strategaethau, yn ôl yr angen.

Mae tystiolaeth a ddarparwyd gan yr ysgol yn awgrymu y bu gwelliannau pellach i gyfraddau presenoldeb yn ystod y flwyddyn academaidd hon, er eu bod islaw'r lefel cyn y pandemig o hyd. Mae cyfraddau absenoldebau cyson wedi gostwng dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac maent yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Cyflawnwyd hyn er gwaethaf y nifer uchel o ddisgyblion â chofnod presenoldeb gwael sy'n ymuno â'r ysgol o ysgolion eraill.

Mae cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ysgwyddo cyfrifoldebau arwain a helpu i wneud gwelliannau i'r ysgol. Mae arweinwyr yn canolbwyntio ar gynhwysiant, gan sicrhau bod pob grŵp o ddisgyblion yn cael ei gynrychioli yn Senedd yr ysgol. Deisebodd y Senedd yn llwyddiannus am wisg ysgol haf ac mae'n ymwneud yn weithredol â'r cynllunio ar gyfer yr ysgol newydd. Yn ddiweddar, mae'r eco-bwyllgor wedi arwain prosiect plannu coed cymunedol gwerthfawr.

Mae'r ysgol yn darparu mannau diogel ar gyfer disgyblion bregus, yn ôl yr angen. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn elwa ar ystod gyfoethog o weithgareddau amser cinio ac ar ôl ysgol sy'n cefnogi medrau cymdeithasol disgyblion, er enghraifft digwyddiadau'r bandiau roc sy'n cael eu llywio gan ddisgyblion, ystod o glybiau chwaraeon a rhaglen Dug Caeredin ffyniannus.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant diogelu cryf. Mae'r tîm diogelu yn sicrhau bod staff yn glir ynghylch prosesau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel, yn cael hyfforddiant rheolaidd ac yn cael y wybodaeth ddiweddaraf berthnasol. Mae gan yr ysgol systemau priodol ar gyfer cofnodi ac ymdrin ag unrhyw bryderon sy'n codi yn ymwneud ag amddiffyn plant neu les. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn rhydd rhag bwlio ac aflonyddu. Dywedant, pan fydd yr ychydig iawn o ddigwyddiadau negyddol yn digwydd, fod staff yn delio â nhw'n brydlon ac yn effeithiol.

## Arwain a gwella

Mae'r pennaeth yn arweinydd angerddol ac ymroddedig sy'n pryderu'n fawr am y disgyblion, y staff a chymuned yr ysgol. Mae staff a llywodraethwyr yn croesawu'n llwyr ei weledigaeth i roi'r cyfleoedd bywyd gorau i bob disgybl.

Caiff y pennaeth ei gefnogi'n fedrus gan uwch arweinwyr. Maent yn cydweithio â'i gilydd i wireddu'r uchelgeisiau uchel sydd ganddynt ar gyfer yr ysgol a'i disgyblion ac i reoli'r newidiadau sylweddol y mae'r ysgol yn wynebu. At ei gilydd, mae rolau a chyfrifoldebau uwch arweinwyr wedi'u dosbarthu'n synhwyraidd ac mae llinellau atebolrwydd yn glir, er bod ychydig o feysydd lle nad yw hyn yn wir.

Mae effaith arweinyddiaeth effeithiol i'w gweld mewn meysydd pwysig o waith yr ysgol, fel gwella presenoldeb, hybu diwylliant diogelu cryf, datblygu arweinwyr canol a lleddfu effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Mae llawer o'r meysydd hyn yn adlewyrchu ffocws cryf arweinwyr ar flaenoriaethau cenedlaethol. Mae gwaith arweinwyr wedi cael llai o effaith ar wella ansawdd yr addysgu mewn lleiafrif o achosion ac ar wella darpariaeth ar gyfer y Gymraeg. Hefyd, mae arweinwyr wedi canolbwyntio'n gyffredinol effeithiol ar ymateb i'r argymhellion o'r arolygiad diwethaf.

Mae gan yr ysgol ddull strategol o leddfu effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Mae'r ysgol yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn ofalus i gefnogi disgyblion. Mae hyn wedi arwain at welliannau cynaledig mewn presenoldeb a deilliannau i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae arweinwyr wedi canolbwyntio'n fanwl ar ddatblygu medrau arweinyddiaeth staff. Mae effaith y gwaith hwn yn amlwg yn y ffordd y mae uwch arweinwyr a llawer o arweinwyr canol yn ymgymryd â'u rolau. Mae gan lawer o arweinwyr canol ddealltwriaeth gadarn o'u rôl a'u cyfrifoldebau fel arweinwyr. Yn benodol, mae arweinwyr canol y cwricwlwm wedi elwa ar ddysgu proffesiynol i ddatblygu eu medrau arweinyddiaeth. Mae arweinwyr canol bugeiliol hefyd yn dechrau datblygu'r medrau hyn.

Mae arweinwyr wedi datblygu systemau trefnus ac integredig i gefnogi gwaith yr ysgol. Mae staff yn deall y rhain yn dda. Mae calendr clir o weithgareddau hunanwerthuso, sicrhau ansawdd a chynllunio gwelliant yn sail i'r systemau hyn. Mae uwch arweinwyr wedi cydnabod yr angen i symleiddio eu systemau a'u gwaith papur.

Mae pob arweinydd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hunanwerthuso defnyddiol yn rheolaidd, fel arsylwi gwersi, teithiau dysgu, craffu ar waith a dadansoddi data perthnasol. Yn aml, mae arweinwyr canol ac uwch arweinwyr yn cwblhau'r rhain ar y cyd, sy'n cefnogi sicrhau ansawdd ac yn datblygu medrau arweinwyr yn effeithiol. Yn gyffredinol, mae medrau gwerthuso arweinwyr yn datblygu'n dda. At ei gilydd, mae'r arweinwyr hyn yn canolbwyntio'n addas ar effaith eu gwaith ar safonau, medrau a phrofiadau disgyblion, er eu bod yn canolbwyntio'n ormodol ar ddarpariaeth ar adegau, heb roi ystyriaeth briodol i'w heffaith ar ddisgyblion. O ganlyniad, gall arweinwyr fod ychydig yn rhy hael yn eu gwerthusiadau ambell waith neu golli cyfleoedd gwerthfawr i werthuso cynnydd disgyblion.

Mae uwch arweinwyr a llawer o arweinwyr canol yn defnyddio canfyddiadau gweithgareddau hunanwerthuso yn effeithiol i lywio eu blaenoriaethau gwella a monitro cynnydd yn erbyn eu cynlluniau gwella. Mae cynllunio gwelliant yn broses iteraidd, lle caiff cynlluniau eu haddasu a'u diwygio'n ddefnyddiol yn ystod y flwyddyn yn sgil canfyddiadau'r gweithgareddau hyn.

Mae system glir ar gyfer rheolaeth linell. Teimla'r staff eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan arweinwyr, ond maent hefyd yn trafod enghreifftiau o pan gânt eu herio'n adeiladol. Caiff cyfarfodydd eu cynnal yn rheolaidd ac maent yn dilyn agenda benodol sy'n ymdrin â phynciau priodol fel cynnydd disgyblion a chanfyddiadau gweithgareddau hunanwerthuso. Fodd bynnag, mae rhywfaint o anghysondeb o ran pa mor dda y caiff y system hon ei rhoi ar waith ac nid yw linellau atebolrwydd yn glir ym mhob maes. Caiff pwyntiau gweithredu defnyddiol eu nodi o brosesau rheolaeth linell, ond ni eir ar drywydd y rhain bob tro.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi adolygu ei ddull ar gyfer y broses adolygu datblygiad proffesiynol. Yn gyffredinol, mae amcanion unigol yn cyd-fynd yn addas â blaenoriaethau datblygu unigol ac ysgol gyfan ac mae cysylltiad clir â dysgu proffesiynol. At ei gilydd, mae arweinwyr yn delio'n briodol â thanberfformiad.

Mae rhaglen ddefnyddiol o gyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer yr holl staff. Mae'r rhain yn cynnwys triawdau deialog broffesiynol ar gyfer arweinwyr canol, anogaeth i athrawon a ffocws manylach ar strategaethau addysgu allweddol. Mae hyn yn helpu i feithrin diwylliant myfyriol ymhlith y staff.

Mae lles staff yn flaenoriaeth uchel i'r ysgol. Mae arweinwyr wedi creu cronfa o adnoddau i gefnogi iechyd meddwl a lles staff, a chaiff lles staff ei drafod ym mhob cyfarfod.

Mae llywodraethwyr yn gefnogwyr brwd o'r ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u rôl a phrif gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Maent yn deall eu cyfrifoldebau ar gyfer bwyta ac yfed yn iach yn dda ac maent wedi cydweithio'n agos â'r darparwr arlwyo. Maent yn cynnig her addas trwy gyfarfodydd llawn y corff llywodraethol. Fodd bynnag, nid yw strwythur a chyfarfodydd yr is-bwyllgorau'n cefnogi nac yn herio'n ysgol yn ddigon effeithiol ar hyn o bryd.

Mae gan y pennaeth, y rheolwr busnes a chadeirydd y llywodraethwyr ddealltwriaeth glir o faterion ariannol yr ysgol ac maent yn sicrhau y caiff penderfyniadau gwariant eu hystyried yng nghyd-destun blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae pwyllgor cyllid y corff llywodraethol yn monitro'r gwaith hwn yn ofalus. Fodd bynnag, mae gan yr ysgol ddiffyg yn y gyllideb. Mae'r ysgol yn cydweithio â'r llywodraethwyr a'r awdurdod lleol i reoli hyn yn ystod cyfnod o drawsnewid.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/04/2025